# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Rhagfyr 2012


# Diwedd Dwy Fil a Deuddeg

Mae diwedd y flwyddyn yn golygu dau beth - y Nadolig a diwedd y tymor ysgol - a daw'r naill a'r llall â'u prysurdeb a'u cyffro! Bu'r gwahanol ysgolion yn paratoi'n ddiwyd am wythnosau ar gyfer eu cyngherddau a'u gweithgareddau diwedd blwyddyn, a nifer o blant a phobl ifanc yn gorffen un cyfnod yn eu bywyd cyn dechrau ar gyfnod newydd.

Nos Fawrth y pedwerydd o Ragfyr, cynhaliodd Ysgol Gerdd y Gaiman eu cyngerdd diwedd y flwyddyn yn neuadd Ysgol 100 y Gaiman. Anrhydeddwyd nifer o'r disgyblion o bob oedran am eu llwyddiannau, a bu perfformiadau gan unigolion, grŵpiau a chorau yn deyrnged i bum cerddor enwog - Atahualpa, Spinetta, Guastavino, Piazzolla a Midon.



Llanwyd neuadd campfa'r Gaiman ar nos Sadwrn yr wythfed o Ragfyr ar gyfer dathliad diwedd y flwyddyn Ysgol Camwy. Roedd disgyblion, athrawon, teuluoedd a chyfeillion wedi ymgynnull ar gyfer noson o anrhydeddu disgyblion sydd wedi serennu dros y flwyddyn, o adloniant ac wrth gwrs, noson i ddathlu llwyddiant disgyblion 3º Pol cyn iddyn nhw ddechrau ar gyfnod newydd yn eu bywydau.




Yr wythnos ganlynol daeth tro Ysgol Feithrin y Gaiman i gynnal eu cyngerdd diwedd y flwyddyn, a hynny yn Hen Gapel Bethel. Roedd y llwyfan wedi'i addurno'n lliwgar dros ben ar gyfer perfformiad Cymraeg gan y plant a'u hathrawon o'r stori dylwyth teg adnabyddus 'Pulgarcita' a gyfieithiwyd i'r Gymraeg gan Elliw Baines Roberts, sef hanes y ferch fach a aned o flodyn. Roedd yr achlysur hefyd yn gyfle i ffarwelio â thri o'r plant fydd yn gadael yr Ysgol Feithrin i ddechrau eu haddysg gynradd yn y flwyddyn newydd, sef Mabon, Kiara a Belén.

Roedd dathliad diwedd y flwyddyn Ysgol yr Hendre yn un arbennig iawn eleni, gan mai dyma'r tro cyntaf i'r ysgol ffarwelio â disgyblion o flwyddyn chwech, sef Mercedes Meza White, Gweneira Hughes, Rocio Fernandez, Joaquin Ojeda a Rhonald Sechi Lloyd. Ers cychwyniadau'r ysgol yng Nhapel y Tabernacl mae'r pump hyn wedi gweld llawer o newidiadau wrth i'r ysgol fynd o nerth i nerth; eleni agorodd adeilad newydd Ysgol yr Hendre'r drws nesaf i Gapel Moriah, ac mae bellach rhyw 100 o ddisgyblion yn ei mynychu. Felly roedd y 13eg o Ragfyr yn noson emosiynol iawn wrth i'r plant hyn ddod at ei gilydd am y tro olaf dan enw Ysgol yr Hendre ac roedd athrawon, teuluoedd, disgyblion eraill a chyfeillion yr ysgol wedi dod at ei gilydd i ddymuno'n dda iddyn nhw at y dyfodol. Ac wrth gwrs, darparwyd teisen at yr achlysur arbennig a hanesyddol.



Llongyfarchiadau i bawb a phob llwyddiant at y flwyddyn newydd ac i'r dyfodol!

Lois Dafydd

# Gwasanaeth Nadolig y Dosbarthiadau Cymraeg




Daeth y Nadolig yn gynnar i'r Gaiman eleni wrth i wasanaeth Nadolig blynyddol dosbarthiadau Cymraeg y Gaiman a Dolavon gael ei gynnal yng Nghapel Bethel ar brynhawn Sul yr ail o Ragfyr. Er gwaetha'r cymylau duon oedd yn bygwth glaw y tu allan, llanwyd nifer fawr o'r seddi y tu fewn a phawb yn edrych ymlaen at wledd Nadoligaidd.



Agorodd y gwasanaeth i gyfeiliant grŵp llinynnol dan arweiniad Sylvia Baldor a ganodd ambell dôn Nadolig gan gyfleu naws berffaith ar gyfer gweddill y prynhawn. Yna cododd Esyllt Roberts i arwain y gynulleidfa yng Ngweddi'r Arglwydd cyn i gôr Capel Bethel ganu 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro' o'r sedd fawr. Gwahoddodd Virginia Steinkamp bawb i ganu'r garol 'Tawel Nos'. Roedd y carolau eraill yn cynnwys 'Clywch lu'r nef', 'O! Deuwch Ffyddloniaid', a 'Llawenydd Mawr', gydag Elizabeth Fernandez, Rebeca a Dámaris Vasquez, Cinthia Zamarreño, Rebeca White, Liliana Evans, Celeste Filipponi, a dosbarth Juan Davies - Beatriz, Awena, Mary, Caryl a Liliana - yn darllen. Llanwyd y capel â chanu angerddol a Judith Jones yn cyfeilio ar yr organ.






Yn ogystal â'r canu cynulleidfaol, roedd unawdau gan Andrés Evans, Billy Hughes a Roberto Jones i gyfeiliant Hector Ariel Macdonald, canodd Elliw Baines Roberts, Ariela Gibbon a Mirna Jones driawd swynol o'r gân 'Iona', a pherfformiodd Côr Ieuenctid yr Ysgol Gerdd y gân Nadoligaidd 'Iesu Yw'.



Ond nid canu a cherddoriaeth yn unig oedd ar raglen y gwasanaeth Nadolig. Cafodd y gynulleidfa modd i fyw yn gwylio disgyblion y dosbarthiadau ôl-feithrin yn cyflwyno stori'r geni yn eu gwisgoedd deniadol. Bu'r angylion yn canu 'Sêr y nos yn gwenu' yn swynol o'r pulpud wrth i Mair a Joseff, y seren a'r doethion yn dod i'r sedd fawr yn eu tro, gyda'r holl gynulleidfa yn ymuno â nhw i ganu 'Unwn yn y moli, unwn yn y canu' i ddod â'r dramodig i'w derfyn.



Darllenodd fynychwyr Clwb Trafod Dolavon adnodau o lyfer Eseia (pennod 9, adnodau 2-7) a disgyblion y dosbarth Pellach Mathew 1:18-25, sef hanes geni Iesu Grist. Rhannodd Lois Dafydd neges yn seiliedig ar y darlleniadau hynny, gan ganolbwyntio ar y ffaith mai Iesu Grist yw rhodd Duw i ni - nid yn unig adeg y Nadolig, ond trwy gydol y flwyddyn a thrwy gydol ein bywydau.



Casglwyd yr offrwm tuag at yr ysbyty lleol cyn i Cathrin Williams arwain mewn gweddi a rhannodd Luned Gonzalez y cyhoeddiadau. Ar ôl canu'r garol olaf, arweiniodd Lois Dafydd bawb i gyd-draddodi'r fendith cyn eu gwahodd i fwynhau diod oer a mins peis yn yr Hen Gapel.



Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniad i'r gwasanaeth Nadolig!

# ‘Y Gist Gofio’




Roedd cynnwrf mawr yn Theatr Verdi Trelew ar nos Wener y 30ain o Dachwedd wrth i blant ac athrawon Ysgol yr Hendre gyflwyno eu hopera roc gyntaf erioed. Unwaith i ddrysau’r theatr agor llanwyd y seddi gan deuluoedd a chyfeillion yr ysgol a phawb yn eiddgar i weld y plant yn ymddangos ar y llwyfan, lle’r oedd y gerddorfa wedi’i gosod hefyd.



Cafodd ‘Y Gist Gofio’ ei hysgrifennu gan Sara Jones a’r gerddoriaeth ei chyfansoddi gan Hector Ariel Macdonald, a bu’r plant a’r athrawon yn ymarfer am wythnosau. Roedd y stori yn dilyn pump o blant ar antur yn chwilio am y gist gofio ac wrth gwrs, roedd sawl her yn eu hwynebu ar hyd y daith. Cyn iddyn nhw allu agor y gist gofio roedd yn rhaid i’r plant gasglu dant o geg Croc y Crocodeil, blewyn o wallt Tom Jones, litr o laeth gan Beti’r Fuwch, deilen o’r goeden hud a phluen wen gan Penri’r Pengwin. Doedd y tasgau hyn ddim yn rhai hawdd ond cafwyd tipyn o hwyl a chanu wrth i holl blantos yr ysgol ddod i’r llwyfan yn eu tro yn eu gwisgoedd lliwgar a thrawiadol.



Ar ôl i’r prif gymeriadau gyflawni’r tasgau, o’r diwedd roedden nhw’n gallu agor y gist gofio a hawlio’r trysor. Yn y gist roedd dwy ddol, y naill mewn gwisg Gymreig a’r llall mewn gwisg Archentaidd, yn ogystal â baneri Cymru a’r Ariannin yn arwydd o’r cwlwm sy’n dal i fodoli rhwng y ddwy wlad. Neges arall yr opera roc oedd y ffaith i’r plant hyn ddyfalbarhau hyd y diwedd gan gydweithio er mwyn cyflawni’r dasg yn llwyddiannus. Wrth i’r cyntaf o blant Ysgol yr Hendre ei gadael eleni, roedd hon yn wers arbennig o berthnasol.



Roedd y gymeradwyaeth yn fyddarol a nifer o’r gynulleidfa ar eu traed yn ystod y gân olaf, a phawb yn amlwg wedi mwynhau - ar y llwyfan ac ar y llawr. Gobeithio mai hon fydd yr opera roc gyntaf o nifer. Llongyfarchiadau Ysgol yr Hendre!

# Cymanfa Ganu Capel Nasareth, Drofa Dulog

Cynhaliwyd cymanfa ganu ola’r flwyddyn yn Nrofa Dulog ar brynhawn Sadwrn yr 22ain o Ragfyr, a gan fod y gwasanaeth hwn dridiau cyn y Nadolig canwyd detholiad o garolau. Arweiniwyd y canu gan Gladys Thomas, Edith Macdonald, Marli Pugh a Rebeca White a’r gynulleidfa yn llenwi’r capel bach gyda’u canu braf i gyfeiliant Liz Jones ar yr organ.


Arweiniodd Arié Lloyd de Lewis bawb mewn gweddi ac agorodd Mabel Pugh y Beibl gyda darlleniad cyn i’r Parchedig Carlos Ruiz rannu neges gyda’r gynulleidfa yn seiliedig ar y darlleniad hwnnw.

Gan mai hon oedd cymanfa ganu olaf 2012, trosglwyddodd aelodau o bwyllgor Cymdeithas Dewi Sant roddion o ddiolch i’r arweinyddion a’r gyfeilyddes am eu cyfraniadau gwerthfawr dros y flwyddyn. Ar ôl i’r canu ddod i ben, roedd cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros damaid o fwyd a diod yn y festri.



Diolch i Gymdeithas Dewi Sant am gynnal y cymanfaoedd canu hyn drwy gydol y flwyddyn.

# Noson Lawen y Dosbarthiadau Cymraeg



Daeth gweithgareddau'r flwyddyn i'w terfyn ar nos Lun y 3ydd o Ragfyr wrth i ddosbarthiadau Cymraeg y Gaiman gynnal Noson Lawen. Daeth nifer i Hen Gapel Bethel ar gyfer gwledd o adloniant a ddechreuodd gydag arweinyddes y noson, Aixa Orive (sydd bellach yn astudio yn La Plata) yn croesawu pawb yno cyn iddi wahodd plant yr Ysgol Feithrin i'r llwyfan. Roedden nhw'n amlwg yn mwynhau dawnsio gwerin a chanu caneuon maen nhw wedi'u dysgu dros y flwyddyn, gan godi gwên ar wyneb y gynulleidfa.




Roedd cyfle i ddathlu llwyddiannau eisteddfodol rhai o drigolion y Gaiman. Martin Hughes oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth adrodd 12-13oed yn Eisteddfod y Bobl Ifanc eleni am ei ddehongliad o'r gerdd 'Sŵ' gan Zohrah Evans, a braf oedd gwrando arno'n darlunio'r gwahanol anifeiliaid yn fyw iawn unwaith eto. Llanwyd y llwyfan gyda 'Gwenoliaid Gaiman' oedd yn fuddugol am gydadrodd cerdd T. Gwynn Jones, 'Gwenoliaid' yn Eisteddfod y Wladfa fis Hydref. Dangosodd y gynulleidfa eu bod yn cytuno â'r beirniaid gyda'u cymeradwyaeth.



Paratôdd rhai o'r dosbarthiadau sgetsys i'w perfformio yn y Noson Lawen. Plantos yr Ôl-feithrin Iau ddaeth i'r llwyfan yn gyntaf i actio 'Neges Bwysig', a phob un ohonyn nhw wedi gwneud ymdrech glodwiw gyda'u gwisgoedd. Druan â Mrs Jones fu'n aros ac yn aros i'r postmon ddod â llythyr pwysig iddi o Gymru, a hithau yn teithio dros bant a bryn er mwyn dweud wrth Mrs Jones fod y llythyr hwnnw dal heb gyrraedd! Yna daeth tro'r Ôl-feithrin Hŷn a'r dosbarth Pellach i gyflwyno 'Y Deisen Ddu Berffaith' - ymgais un person i bobi teisen ddu gan ddilyn rysáit a gyfrannwyd i gylchgrawn gan wraig nad oedd am rannu gwir rysáit ei theulu. Diddorol oedd wynebau'r sawl oedd yn blasu'r deisen ac ynddi ddŵr o Afon Camwy ac wyau estrys… Roedd yr actorion yn arbennig o dda!






Daeth rhai o ddisgyblion Ysgol Camwy i'r llwyfan hefyd gyda'u hathrawes Caren Jones, gan ddod â'r Gemau Olympaidd yn fyw i'r Gaiman wrth iddyn nhw gyflwyno sgets fer a chân am y gwahanol gampau. Ond cyn i'r gynulleidfa feddwl eu bod yn yr Hen Gapel i eistedd yn ôl a mwynhau'r gwahanol eitemau, daeth Billy Hughes a Gladys Thomas i'r llwyfan i'w harwain yn y gân boblogaidd 'Bing Bong y Bing Bong Bei'. Canwyd pedwar pennill adnabyddus iawn, a thipyn o her oedd eu canu ar dôn wahanol a honno'n cyflymu bob tro!





Cafwyd seibiant o'r perfformiadau wrth i athrawon y gwahanol ddosbarthiadau gyflwyno tystysgrifau i'w disgyblion, a rhoddwyd cydnabyddiaeth i Elliw Baines Roberts a Lois Dafydd am eu gwaith yn y Gaiman. Estynnodd pawb i'w pocedi er mwyn gweld a oedd eu tocynnau nhw'n cyfateb i'r rhifau lwcus oedd yn cael eu tynnu o'r bag yn y raffl fawr! Roedd y gwobrau yn cynnwys pryd i ddau yn Gwalia Lân, te i ddau mewn gwahanol dai te, a chryno ddisgau Cymraeg - gwenai'r enillwyr o glust i glust wrth iddyn nhw gasglu eu gwobrau o'r llwyfan.



Eitem olaf y Noson Lawen oedd caneuon gwerin Cymraeg gan y grŵp 'Tros y Môr', a daeth y noson i'w therfyn wrth i bawb godi ar eu traed i ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Gwyliau haeddiannol iawn i athrawon a disgyblion y dosbarthiadau Cymraeg. Mwynhewch!

# Holi Dr David Williams...



1. **Ble cawsoch chi eich geni?** *Ces i fy ngeni yng Nhrelew, lle dw i'n dal i fyw. Ond rhwng 1984 a 2000 bûm yn byw yn Muenos Aires, lle ges i fy ngradd mewn Meddyginiaeth. Ar ôl gorffen y brifysgol, arhosais i yn y ddinas fawr am ddeng mlynedd arall.*
2. **Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?** *Dechreuais i ddysgu Cymraeg ar ôl i fi a'r wraig ddod yn ôl i Drelew tua diwedd y flwyddyn 2000. Ond dim ond pan es i Nant Gwrtheyrn yn 2003 ac ar ôl treulio dau fis ar raglen Cariad@iaith ddysgais i ddigon o Gymraeg i siarad, ysgrifennu a darllen. Wedyn yn Nhrelew gwnes y Cwrs Uwch am flwyddyn yn 2010. Beth bynnag, dydw i ddim yn ysgifennu yn iawn eto, a does dim digon o eirfa gyda fi.*
3. **Beth ydy eich hoff air Cymraeg?** *'Dysgu' yw fy hoff gair Cymraeg, oherwydd mae dau ystyr iddo: yn Sbaeneg gall "dysgu" gael ei cyfieithu fel "aprender" neu "enseñar"; yn Saesneg, "to learn" a "to teach". Bob tro bydd rhywun yn dysgu un ffordd, dw i'n meddwl ei fod yn dysgu'r ffordd arall hefyd.*
4. **Sut deimlad oedd hi i ennill cadair Eisteddfod Trevelin 2012?**
*Ges i alwad ffôn wrth Carina yn dweud fod rhywun o Drevelin wedi ffonio. Ro'n i'n meddwl bod rhywbeth ofnadwy wedi digwydd i fy ewythr oedd yn ymweld â theulu yno. Do'n i ddim yn gallu credu mod i wedi ennill y Gadair… fase fo'n haws, dw i'n meddwl, ennill y fedal yn Sbaeneg. Wrth gwrs, dw i'n teimlo'n falch… ond dw i'n cytuno â Morris ap Hughes, bardd o'r Dyffryn a ddywedodd pan oedd rhywun yn ei longyfarch ar ennill tair cadair: "Dydych chi ddim yn gwybod faint o gadeiriau wnes i golli"!*
5. **O ble cawsoch chi eich ysbrydoliaeth?**
*Wrth i fi ysgrifennu'r gerdd hon ro'n i'n meddwl am fy ngwyliau ar draeth o'r enw Bengoa ar Orynys Valdés, yn ystod fy ieuenctid, pan wnaethon ni wersylla a physgota am wythnos neu ddwy yn yr haf; a hefyd am fywyd y Tehuelches, brodorion Patagonia, oedd yn byw yma mewn rhyddid, wrth gael popeth oedd angen iddyn nhw gan fyd natur.*
6. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi gwneud?**
*Wel, mae'n gas gen i smwddio, siopa a gweithio dan orchymyn y cloc… dw i'n gallu osgoi'r ddau gyntaf, ond ddim yr olaf oherwydd fy mod yn byw mewn cymdeithas fodern.*
7. **Beth yw eich hoff/cas fwyd?**
*Dw i ddim yn gallu dweud fod gen i hoff fwyd… dw i'n hoffi bwyta. Dw i'n hoffi bron popeth… ond mae'n gas gen i datws melys a phwmpen.*
8. **Ydych chi wedi bod i Gymru?**
*Do, ddwywaith. Y tro cyntaf yn 1992 yn rhan o daith o gwmpas Ewrop am chew mis; es i ddau ddeg dau o wledydd gwahanol, gan gynnwys cymru am 10 diwrnod. Mi wnes i ymweld â Chaerdydd, Llanddewi, Aberystwyth a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yr ail dro yn 2003 pan es i'r Nant am wythnos, gan gynnwys ymweld â Chaernarfon ac Ynys Môn. Treuliais i wythnos yn Aberystwyth cyn mynd i'r Nant ac wythnos arall ar ôl y rhaglen ym Mangor ac yn Eisteddfod Meifod, a diwrnod arall yng Nghaerdydd.*
9. **Ble mae eich hoff le yn y byd?**
*Dw i'n hoffi byw ym Mhatagonia, y lle y gorau yn y byd i fi. Ond mae gan y byd lawer o leoed hardd a diddorol. Dw i'n teimlo wrth fy modd mewn llawer o leoed gwahanol, yn yr Ariannin a gwledydd eraill… dw i'n hoffi teithio ac wedi bod i dri deg gwlad yn barod. Ond beth bynnag am y problemau sy gyda ni yma yn ein gwlad, dw i'n dal i dewis Patagonia… ar hyn o bryd, o leiaf.*

# Mins Peis
## - danteithion Nadolig traddodiadol yng Nghymru

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynhwysion y mins: | 175g cwrens | 175g resins | 175g swltanas |
| | 125g menyn, wedi'i dorri'n giwbiau | | 100g croen cymysg |
| | 1 afal coginio bach, wedi'i blicio a'i dorri'n fân | | |
| | 50g cnau almon wedi'u torri'n fân | | croen a sudd 1 lemwn |
| | 225g siwgr brown | | 1 llwy de o sbeis cymysg |
| | hanner llwy de o bowdr sinamon | | 200ml brandi, rym neu sieri |

1. Rhowch bopeth ond yr alcohol mewn sosban fawr. Cynheswch y cyfan er mwyn toddi'r menyn cyn ei fudferwi yn ysgafn am tua 10 munud gan droi'r gymysgedd bob hyn a hyn.
2. Gadewch i'r gymysgedd oeri'n llwyr. Ychwanegwch yr alcohol ato gan droi'r cyfan i wneud yn siŵr ei fod wedi cymusgu'n dda.
3. Rhowch y gymysgedd mewn jariau glân a'u cadw mewn lle oer. Gall gadw hyd at 6 mis.



Paratowch does, er enghraifft toes ar gyfer teisen blât, a thorri cylchoedd bach ohono i'w rhoi mewn tun teisennau bach wedi'i iro â menyn. Llenwch y rhain gyda'r mins cyn eu gorchuddio gyda chylch arall o does a defnyddio cyllell i wneud llinellau ynddo. Gallwch wneud siapau Nadolig o'r toes, megis seren, cloch neu goeden Nadolig. Pobwch y mins peis nes bod y toes wedi'i goginio.

Maen nhw'n flasus yn gynnes neu yn oer. Mwynhewch!



# Diwrnod Llywelyn ap Gruffudd

Un o'r dynion pwysicaf yn hanes Cymru yw Llywelyn ap Gruffudd, neu Llywelyn Ein Llyw Olaf, ac mae'r 11eg o Ragfyr yn ddiwrnod i gofio amdano.

Cafodd ei eni tua'r flwyddyn 1225 yn ŵyr i Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr), sef arweinydd pwysicaf Cymru yn yr Oesoedd Canol a lwyddodd i uno gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Pan fu farw ewythr Llywelyn, Dafydd, yn 1245 daeth ef a'i frawd hynaf, Owain, i reoli Gwynedd gyda'i gilydd. Yn 1255 dechreuodd Llywelyn ymosod ar y cestyll Seisnig yng Nghymru ac erbyn 1257 llwyddodd i adennill Gwynedd i'r dwyrain o afon Conwy, cipiodd ardaloedd Seisnig yng Ngheredigion a goresgynodd arglwyddiaethau'r gororau yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru.

Yn 1258 mabwysiadodd Llywelyn y teitl Tywysog Cymru, ac yng Nghytundeb Trefaldwyn yn 1267 cytunodd Brenin Lloegr i roi'r teitl Tywysog Cymru i Llywelyn a'i etifeddion.




Ar Sul y Blodau yn y flwyddyn 1282 ymosodd brawd Llywelyn, Dafydd, ar Gastell Penarlâg, ac ymunodd Llywelyn ag ef mewn gwrthryfel yn erbyn y brenin Edward. Ar 11 Rhagfyr 1282 lladdwyd Llywelyn gan filwyr Seisnig yng Nghilmeri, canolbarth Cymru, mewn brwydr fawr. Anfonwyd ei ben at y brenin i gael ei arddangos yn Llundain, a chladdwyd gweddill ei gorff yn Abaty Cwm-hir. Daeth hyn â diwedd ar awdurdod llinach Gwynedd.

Codwyd cofeb i Llywelyn ap Gruffudd ger y fan lle'i lladdwyd yng Nghilmeri, ac aeth tua 500 o bobl yno ar 11 Rhagfyr 2012 i'w goffáu 730 o flynyddoedd ar ôl ei farwolaeth.

Er nad yw'r diwrnod hwn yn wyliau cenedlaethol yng Nghymru, mae'n gyfle i'r genedl gofio a thalu teyrnged i ŵr a wnaeth gymaint dros ei wlad.

# Traddodiadau'r Nadolig yng Nghymru...

## Hela'r Dryw



Flynyddoedd yn ôl, byddai'r Cymry yn cynnal nifer o draddodiadau dros gyfnod y Nadolig. Un o'r rhain oedd Hela'r Dryw.

Daw gŵyl y Nadolig i ben ar y 6ed o Ionawr, sef Nos Ystwyll, sy ddeuddeg diwrnod ar ôl dydd Nadolig. Ar y diwrnod hwn byddai pobl yn arfer hela'r dryw - mae'r dryw yn aderyn bach tua 4 modfedd o daldra heb fawr o bwysau iddo, felly byddai hon yn dasg anodd dros ben!



Ar ôl i'r dryw gael ei ladd, byddai'n cael ei addurno a'i roi mewn tŷ bychan cyn i griw o ddynion ei gario o amgylch y pentref. Byddai'r pentrefwyr yn rhoi arian i'r dynion yn ddiolch am gael gweld y dryw.

Nid yw'r arfer hwn yn cael ei ddilyn ers blynyddoedd bellach!

Yn ôl traddodiad ofergoelus, mae'n rhaid tynnu'r holl addurniadau Nadolig a'r goeden i lawr naill ai ar Nos Ystwyll neu gyn hynny, neu fydd anlwc yn dod i'r tŷ am weddill y flwyddyn.

## Noson Gyflaith



Traddodiad Cymreig arall a gynhelid yng Nghymru adeg y Nadolig oedd Noson Gyflaith. Roedd yr arfer o wneud cyflaith, neu daffi, yn perthyn yn bennaf i ardaloedd yng Ngogledd Cymru ond roedd hefyd yn boblogaidd mewn rhai ardaloedd yn y de, yn enwedig yng nghymoedd y glo.

Roedd y Noson Gyflaith yn ddigwyddiad cymdeithasol gyda phobl yn dod at ei gilydd yng nghartref rhywun i fwyta swper, chwarae gemau, adrodd straeon a thynnu cyflaith. Pan fyddai cymysgedd y cyflaith yn barod, byddai pob un yn iro ei ddwylo gyda menyn cyn cymryd darn ohono i'w dynnu tra byddai'n gynnes a gwneud rhaffau hir a thenau. Roedd tynnu cyflaith yn grefft arbennig!

Traddodiad arall ynghlwm wrth y cyflaith oedd rhagweld pwy fyddai rhywun yn ei briodi trwy ollwng darnau ohono i ddŵr oer er mwyn gweld pa lythyren fyddai'r cyflaith yn ei ffurfio!

Gan ei bod hi'n Nadolig, dyma ail rysáit yn anrheg i chi!

Cynhwysion: 85g siwgr | 225g menyn | sudd un lemwn | 1/4 peint dŵr berw

Rhowch y siwgr mewn sosban ac arllwyswch y dŵr drosto, yna trowch gyda llwy bren nes bydd y siwgr wedi toddi'n llwyr. Gall hyn gymryd rhyw ugain munud. Tynnwch y sosban o'r tân ac ychwanegwch y sudd lemwn a'r menyn (wedi'i feddalu) at y siwgr. Cymysgwch yn dda. Yna berwch y gymysgedd yn weddol gyflym am ryw 15 munud heb ei droi.




Rhowch lond llwy o'r gymysgedd mewn cwpan o ddŵr oer - os bydd yn caledu yn syth yna mae'r cyflaith yn barod. Arllwyswch y gymysgedd i fowlen fawr sydd wedi'i hiro â menyn, yna tynnwch y cyflaith yn rhaffau hir a'u torri'n ddarnau bach. Gadewch iddo oeri a chaledu cyn ei fwyta. Mae rhai pobl yn gorchuddio'r cyflaith gyda siwgr eisin.

**Cornel y Dysgwyr** *Rincon de aprenda Galés*

## **Y Flwyddyn Newydd** / *El Año Nuevo*

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn Newydd Dda!** | *Feliz Año Nuevo!* |
| **Nos Galan** | *31 de diciembre* |
| **Dydd Calan** | *1 de enero* |
| **Hanner nos/Canol nos** | *medianoche* |
| **Addunedau blwyddyn newydd** | Resoluciónes del año nuevo |
| **Dwy fil a thair ar ddeg** | *Dos mil trece* |



**Diolch yn fawr** i bawb sydd wedi cefnogi *Clecs Camwy* dros y ddwy flynedd diwethaf - i bob un sydd wedi cyfrannu ato, ei noddi ac wrth gwrs, ei ddarllen!



NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA!

# Cwestiynau Clecs

1. Beth oedd enw Opera Roc Ysgol yr Hendre?
2. Ble cynhaliwyd Noson Lawen y dosbarthiadau Cymraeg?
3. Llun o bwy sydd angen i'r plant ei liwio?
4. Pa un yw hoff air Dr David Williams?
5. Diwrnod pwy sydd ar yr 11eg o Ragfyr?
6. Pryd cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Dosbarthiadau Cymraeg y Gaiman a Dolavon?
7. Pryd mae Nos Ystwyll?
8. Faint o fenyn sydd ei angen ar gyfer llenwad y mins peis?
9. Ble cynhaliwyd y Gymanfa Ganu?
10. Ble mae cofeb Llywelyn ap Gruffudd?
11. Beth ydy 'muñeca' yn Gymraeg?
12. Teyrnged i ba gerddorion oedd yn nathliad diwedd y flwyddyn yr Ysgol Gerdd?

## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| cyffro | ***emoción*** | trysor | ***tersero*** |
| cyfnod | ***período*** | dol | ***muñeca*** |
| adnabyddus | ***conocido*** | cwlwm | ***nudo*** |
| eiddgar | ***con entusiasmo*** | perthnasol | ***pertinente*** |
| tasg | ***tarea*** | cydnabyddiaeth | ***reconocimiento*** |
| dyfalbarhau | ***perservar*** | geirfa | ***vocabulario*** |
| tatws melys | ***batata*** | uno | ***unir*** |
| byd natur | ***la naturaleza*** | mudferwi | ***hervir a fuego lento*** |

# Cornel
# y Plant

Lliwiwch Siôn Corn
a'i geirw!



**GWYLIAU
LLAWEN BLANT!**

## Chwilair Y Nadolig

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| b | e | th | l | e | h | e | m | rh | c | y | j | l |
| u | t | f | r | h | y | rh | a | d | s | n | o | b |
| g | e | l | i | o | s | w | i | f | g | h | s | n |
| a | f | dd | y | t | s | e | r | e | n | m | e | u |
| i | e | a | f | ll | r | h | l | p | s | p | ff | o |
| l | y | h | s | d | o | e | th | i | o | n | l | m |
| j | c | ff | g | c | f | r | u | g | d | w | b | y |
| i | e | s | u | g | r | i | s | t | j | f | d | r |
| p | n | b | r | y | h | ll | c | b | ph | a | u | r |

Iesu Grist
Mair
Joseff
Seren
Doethion
Bugail
Bethlehem
Aur
Thus
Myrr

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198